Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2025, am 2pm (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Cllr. Marc Tierney (Cadeirydd) | Aelod Cabinet dros Bobl Ifanc, Cymuned, Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Cyngor Sir Penfro |
| Jessica Bickerton | Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 4.06pm) |
| Philip Kloer | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Uwch-arolygydd Dros Dro Louise Harries | Heddlu Dyfed–Powys (gadawodd am 3.05pm) |
| Bruce Bolam | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| James White | Pennaeth Ymgysylltu, Perfformiad a Chymuned, Cyngor Sir Penfro (gadawodd am 3.32pm) |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (gadawodd am 2.55pm) |
| James Cordell | Swyddog Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Anna Malloy | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata, Porthladd Aberdaugleddau |
| Alison Perry | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru (gadawodd am 3.09pm) |
| Linda Jones | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (cyrhaeddodd am 2.29pm) (gadawodd am 4.08pm) |

*Cymorth/ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |

*Yn bresennol ar gyfer eitem 3*

| | |
|---|---|
| Geraldine Murphy | Cyngor ar Bopeth (gadawodd am 3.25pm) |
| Jayne O'Hara | Cyngor ar Bopeth (gadawodd am 3.25pm) |

*Yn bresennol ar gyfer eitem 4*

| | |
|---|---|
| Rhian Bennett | Uwch-reolwr Comisiynu, Cyngor Sir Penfro |

*Yn bresennol ar gyfer eitem 5*

| | |
|---|---|
| Geinor Jones | Uwch-ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (3.22pm – 4.03pm) |

*Yn bresennol ar gyfer eitem 6*

| | |
|---|---|
| Yvette Pellegrotti | Prif Reolwr Rhaglenni, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (cyrhaeddodd am 3.26pm) |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Ardiana Gjini | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

Dechreuodd y cyfarfod am 2.03pm

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd MT bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan yr unigolion a restrir uchod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / cofnod y camau gweithredu

Cofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir, er bod angen gwneud ychydig o ddiwygiadau:

- Yn rhestr y rhai oedd yn bresennol, dylai teitl swydd MH fod yn 'Prif Swyddog Cynorthwyol' yn hytrach na 'Prif Swyddog Tân Cynorthwyol'.
- Ar dudalen 9, dylai ddarllen bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynychu 16 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, yn hytrach na chwech.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Gwneud diwygiadau i gofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref.

Roedd yr holl gamau gweithredu oedd yn weddill o'r cyfarfod diwethaf wedi'u cwblhau.

## 3. Sesiwn 'sbotolau' ar dlodi – adroddiad ac argymhellion Troi Geiriau yn Weithredu

Rhoddodd GM gyflwyniad ar yr adroddiad Troi Geiriau yn Weithredu:

- Lansiwyd adroddiad Troi Geiriau yn Weithredu ym mis Medi 2025 mewn digwyddiad yn yr HaverHub. Mynychodd y Prif Weinidog y lansiad, ac roedd llawer o ddiddordeb ynghylch yr adroddiad a'i argymhellion. Mae crynodeb gweithredol o'r adroddiad ar gael ar wefan Cyngor ar Bopeth Sir Benfro.
- Ariannwyd yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Arloesi Tlodi Plant a Chefnogi Cymunedau. Tyfodd y syniad ar gyfer y prosiect o astudiaeth gynharach gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.
- Roedd datblygu'r adroddiad yn cynnwys darn cyflym o ymchwil, a gynhaliwyd yn bennaf trwy grwpiau ffocws dros gyfnod o chwe mis. Gofynnwyd i'r grwpiau nodi dulliau dymunol a chyraeddadwy o liniaru effaith tlodi. Cynhaliwyd digwyddiadau hefyd ym mis Medi 2024 i gael mewnbwn gan bobl â phrofiadau o fyw mewn tlodi. Roedd y Cynulliad Ieuenctid hefyd yn rhan o drafodaethau ynghylch y cynllun.
- At ei gilydd, roedd tri phrif grŵp ffocws yn rhan o'r ymchwil hon:
    - Grŵp ar gostau'r diwrnod ysgol
    - Grŵp ar gostau byw aelwydydd
    - Grŵp ar effaith tlodi ar iechyd meddwl a llesiant

- Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i'r grwpiau ffocws ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda, yr hyn nad yw'n gweithio'n dda, a pha rwystrau sydd i weithio ar y cyd. Nodwyd y canfyddiadau canlynol:
    - Cyflwyno gwasanaethau
        - Lleoliad ac amseru – y pwysigrwydd o fod yn bresennol pan fydd angen cymorth ar bobl.
        - Cyfathrebu a mynediad at wasanaethau cymorth – ymdrechu i ddarparu gwasanaethau mwy cyfartal, yn enwedig i'r rhai sydd wedi'u hynysu'n ddaearyddol.
        - Cydleoli gwasanaethau – mae bod wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd yn caniatáu i sefydliadau gydweithio'n fwy effeithiol (e.e. Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chyngor ar Bopeth Sir Benfro yn yr un adeilad).
        - Rôl gwasanaethau gwybodaeth, cymorth a chyngor – canolbwyntio ar ddulliau ataliol.
        - Pwysau ar wasanaethau cymorth – rhannu llwyth gwaith a gweithio gyda'n gilydd.
    - Ymyriadau ymarferol a chymorth
        - Gweithio gydag ysgolion i liniaru costau'r diwrnod ysgol – mae rhai newidiadau cadarnhaol eisoes wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i'r strategaeth tlodi, megis grantiau gwisg ysgol.
        - Mae sgiliau ymarferol a sesiynau hyfforddi sy'n helpu i liniaru effaith tlodi yn cael eu canfod yn werthfawr iawn.
    - Effaith tlodi ar iechyd a llesiant
        - Mae tlodi yn cael effaith fawr ar iechyd meddwl, nid yn unig i'r bobl sy'n profi tlodi'n uniongyrchol, ond hefyd i'r gweithlu o bobl sy'n cefnogi'r rhai mewn sefyllfaoedd trallodus.
        - Mae rhai mentrau eisoes ar waith, megis gwasanaeth cynnyrch mislif am ddim lle gellir postio cynhyrchion i gartrefi unigolion ledled y sir.
        - Mae dull sy'n ystyriol o drawma ar waith mewn ysgolion.
    - Gweithio ar y cyd a dylanwadu ar bolisi
        - Gwelir bod gweithio ar y cyd yn allweddol i arferion gwell. Gellir gwneud gwaith yn fwy effeithiol trwy weithio gyda'n gilydd.
        - Sefydlu cymuned ymarfer.
        - Cydgynhyrchu – cynnal deialog â phobl sydd â phrofiadau bywyd.
- Nodwyd nifer o argymhellion yn yr adroddiad ar gyfer gweithwyr rheng flaen, uwch-reolwyr a phartneriaid strategol. Roedd yr argymhellion o gwmpas y canlynol:
    - Dull systemau – dod â gwasanaethau i ddefnyddwyr a chefnogi gweithio ar y cyd.
    - Cyfathrebu – darparu gwybodaeth glir a hygyrch am y gwasanaethau a gynigir.
    - Caredig a thosturiol – datblygu arweinyddiaeth a rhyngweithiadau caredig a thosturiol gyda defnyddwyr gwasanaeth.
    - Ymyrraeth ataliol/gynnar – cyflawni strategaethau allweddol, ailsefydlu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, a darparu sesiynau sgiliau ymarferol.
    - Sefydlu cymuned ymarfer – mae digwyddiad yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau mis Chwefror 2026. Mae croeso i unrhyw bartneriaid fynychu'r lansiad a bydd cyfathrebiadau am hyn yn cael eu hanfon allan yn fuan. Gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y gymuned ymarfer.

Awgrymodd MT y dylai adroddiad Troi Geiriau yn Weithredu fod yn ddogfen fyw sy'n ystyried sefyllfaoedd newidiol pobl wrth i newidiadau gael eu gweithredu gan Lywodraeth y DU. Er enghraifft, bydd cael gwared ar y cap dau blentyn ar y budd-dal plant yn effeithio ar tua 1,280 o aelwydydd yn Sir Benfro, a bydd angen gweithio i gefnogi teuluoedd sy'n cael arian

ychwanegol. Pwysleisiodd MT bwysigrwydd defnyddio'r data i ddatblygu camau yn y dyfodol ar gyfer Sir Benfro fwy cynaliadwy a llewyrchus.

Cwestiynodd BB a oedd yr ymchwil wedi nodi themâu neu garfanau penodol lle mae cyfleoedd ar gyfer cymorth ychwanegol. Nododd y gellir targedu gwasanaethau drwy safbwynt sy'n seiliedig ar leoedd neu'r gymuned. Eglurodd GM fod yr ymchwil ar gyfer yr adroddiad yn ansoddol yn unig ac nad oedd yn gwneud argymhellion ar sut y dylid darparu gwasanaethau. Nod y gwaith oedd gwella gweithio ar y cyd a dangos effaith tlodi ar lesiant. Ychwanegodd fod cysylltwyr a hyrwyddwyr cymunedol ar waith i gefnogi cymunedau. Awgrymodd BB fod angen i wasanaethau fod yn seiliedig ar leoedd ac yn benodol i'r gymuned, gan sicrhau bod cynnig cyffredinol ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth.

Nododd JW y gellir defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) i dargedu cymunedau a carfanau penodol. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos fwyfwy nad yw dros hanner y rhai sy'n byw mewn tlodi yn byw yn yr ardaloedd lle mae'r amddifadedd mwyaf. Ychwanegodd na fydd rhai carfanau sy'n aml yn cael eu heffeithio gan dlodi o reidrwydd yn dangos ar fap. Er enghraifft, aelwydydd â phlentyn anabl, aelwydydd yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, ac aelwydydd mewn llety ansicr (e.e. digartrefedd, mewn llety dros dro). Awgrymodd BB y gallai'r is-grŵp tlodi drafod y gwaith hwn ymhellach. Ychwanegodd y gellid defnyddio carfanau neu ddigwyddiadau penodol sy'n gysylltiedig â thlodi fel enghreifftiau lle mae angen ymdrech ychwanegol ar gyfer darparu a chynllunio gwasanaethau integredig.

Mynegodd JB fod gweithio ar y cyd eisoes yn digwydd yn Sir Benfro, er bod tlodi yn parhau i fod yn endemig o fewn cymunedau. Mae cydleoli Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chyngor ar Bopeth yn cryfhau presenoldeb y gwasanaethau hyn yn y gymuned leol ac yn gwella hygyrchedd cyngor a chymorth. Awgrymodd JB fod angen cynnal hyn yn y dyfodol, a bydd y gymuned ymarfer yn sicrhau bod gweithio ar y cyd ac arferion da yn cael eu cynnal. Bydd is-grŵp tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu i yrru'r gwaith hwn ymlaen, a dylid defnyddio mewnwelediadau i lywio'r strategaeth llesiant nesaf a'r Strategaeth Trechu Tlodi.

Cwestiynodd PK a oedd rhannu data wedi bod yn beth pwysig i wneud yn ystod y broses ymchwil. Eglurodd GM fod y rhan fwyaf o'r bobl yn y grwpiau ffocws yn staff rheng flaen, ac nad oedd llawer o drafodaeth ynghylch rhannu data. Cadarnhaodd fod gan rai partneriaid lwybrau atgyfeirio yn ôl ac ymlaen (e.e. system atgyfeirio cysylltwyr cymunedol), yn ogystal â ffyrdd mwy anffurfiol o gydweithio. Bydd y fenter cymuned ymarfer yn helpu i ddatblygu a chynnal y perthnasoedd gwaith da hyn a rhannu data. Ni roddodd y grwpiau ffocws yr argraff bod angen protocolau rhannu data ychwanegol.

Cwestiynodd PK hefyd a oes ffyrdd gwell o fesur llwyddiant a allai olygu bod y rhaglen hon yn denu mwy o gyllid. Rhannodd GM ei bod yn rhwystredig bod cyllid yn cael ei dorri pan fydd prosiectau ar ddechrau cychwyn. Ychwanegodd y bydd angen ailgyflwyno cynigion yn aml, a hynny wrth i'r gwaith ddechrau cael effaith. Cytunodd BW, gan nodi bod y coleg hefyd yn wynebu'r un anawsterau o ran gwneud cais am gyllid. Rhannodd fod 27% o'r cymeriant myfyrwyr yn y gronfa ariannol wrth gefn, sy'n cyd-fynd yn fras â'r ffigurau amddifadedd ar gyfer y sir gyfan. Mae'r coleg yn cael cyllid blynyddol i gefnogi hyn, ond mae'n cael ei dorri'n flynyddol, gyda gostyngiad o 16% ar gyfer eleni yn unig. Mae hyn yng nghyd-destun gwariant yn codi, ac mae'r coleg eisoes 20% dros ei ddyraniad. Mynegodd BW fod angen dirfawr am sefydlogrwydd cyllid, ond mae hyn yn parhau i fod yn her barhaus. Nododd MT, er bod y galw am gymorth ariannol yn cynyddu, ei bod yn dda gweld nifer cynyddol o bobl o gefndiroedd incwm isel sy'n uwchsgilio ac yn hyfforddi eu hunain trwy addysg bellach. Ychwanegodd fod addysg yn gam cadarnhaol tuag at dorri'r cylch tlodi.

Awgrymodd MT y gellid cynnwys diweddariad ar adroddiad Troi Geiriau yn Weithredu ar agenda'r uwchgynhadledd tlodi ym mis Mawrth 2026. Byddai hyn yn lledaenu'r neges i grŵp ehangach o bartïon â diddordeb ac yn annog cynnydd pellach yn erbyn yr argymhellion.

**4. Diweddariadau ar brosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

*Cryfhau Cymunedau*

Rhoddodd JB ddiweddariad ar Wobrau Gwirfoddoli Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro 2025:

- Cynhaliwyd Gwobrau Gwirfoddoli blynyddol Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro ym mis Tachwedd yn Neuadd y Frenhines. Roedd nifer uchel o enwebiadau eleni, ac roedd pob enwebiad yn dangos y pŵer sydd gan wirfoddoli i newid bywydau.
- Cafodd nifer o bobl leol wobrau, gan gynnwys y canlynol:
    - Merch ifanc o FRAME
    - Grŵp o blant o'r prosiect garddio
    - Gwirfoddolwr o'r Banc Babanod
    - Pobl o'r Living Memory Group
    - Beiciwr gwaed a gollodd ei fywyd mewn gwrthdrawiad tra ar ddyletswydd
- Bydd rhai o'r straeon hyn yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn ôl fel rhan o'r Newid Mwyaf Arwyddocaol.

Rhoddodd RB yr wybodaeth ddiweddaraf am gryfhau cymunedau:

- Mae data ansoddol ar y ganolfan gymunedol a'r cysylltwyr yn fwy manwl nag mewn adroddiadau blaenorol. Mae hyn oherwydd y nifer fawr o unigolion sy'n cael eu cefnogi a'r ystod eang o faterion sy'n cael eu cyflwyno sydd angen atebion yn y gymuned. Mae llawer o geisiadau'n ymwneud â chyngor ar gysylltu ag eraill, ac ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.
- Mae'r adroddiad yn ddiweddar ar Gronfa Gweithredu Cryfhau Cymunedau yn tynnu sylw at yr hyn y gellir ei gyflawni i gefnogi cymunedau ledled y sir. Mae cyllid yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'n tueddu i gael ei gyfrannu gan adran Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a chyllid Mannau Cynnes. Mae'r cronfeydd yn cael eu cyfuno ac yna eu cydlynu gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro i'w gwneud ar gael i grwpiau cymunedol lleol ledled y sir. Bydd cylch ariannu arall yn agor yn fuan i sicrhau y gall gweithgareddau barhau ymlaen i'r gwanwyn. Yn 2024/25:
    - Mae dros 4,000 o bobl wedi elwa o'r cyllid.
    - Cyfrannodd dros 500 o wirfoddolwyr eu hamser, sy'n cyfateb i tua £204,310 mewn cyflogau.
    - Darparwyd prydau bwyd cynnes a mannau cynnes i'r cymunedau.
    - Roedd unigolion yn gallu cysylltu ac adeiladu perthnasoedd ag eraill a theimlo ymdeimlad o berthyn o fewn eu cymuned.
- Yn yr is-grwpiau gweithredol a strategol, bu sgyrsiau ynghylch sut i ymgorffori ac adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd ym maes cydlyniant cymunedol. Mae hyn yn dal i fod yn ei gamau cynnar, ond cytunwyd yn ddiweddar gan y grŵp gweithredol y dylid ei gynnwys yn y ffrwd waith Cryfhau Cymunedau.
- Mae sgyrsiau wedi bod yn digwydd o amgylch bwyd hefyd. Nodwyd bod gan fwyd rôl ganolog a bod cysylltiadau a chyfraniadau i'w gwneud gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd y grwpiau fod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu gwerth at y gwaith hwn ond peidio â dyblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei gynhyrchu mewn mannau eraill.
- Bydd cyfleoedd ariannu yn y dyfodol yn faes ffocws, yn enwedig ar gyfer prosiectau sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae

ffrydiau ariannu amgen, fel y Gronfa Twf Lleol, yn cael eu hystyried. Bydd y gwaith hwn yn gofyn am ymdrech gan y bartneriaeth dros y misoedd nesaf.

- Ymwelodd y Comisiynydd Pobl Hŷn â Sir Benfro ym mis Tachwedd. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol, gan nodi bod ysbryd cymunedol a dyfeisgarwch yn amlwg. Bydd sesiwn adrodd yn ôl ym mis Chwefror 2026 lle cyflwynir canfyddiadau ac argymhellion swyddogol y comisiynydd. Bydd y gwahoddiad i'r digwyddiad yn cael ei estyn i ystod eang o bobl, gan gynnwys asiantaethau partner a phobl leol 50 oed a hŷn.
- Bydd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, is-grwpiau a Gyda'n Gilydd dros Newid yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn panel i ystyried straeon y Newid Mwyaf Arwyddocaol sydd wedi'u casglu dros y misoedd diwethaf. Bydd hyn yn digwydd ym mis Chwefror neu ym mis Mawrth 2026.

Tynnodd IT sylw at y ffaith bod Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro wedi ennill gwobr efydd yn y Gwobrau Bwyd Cynaliadwy yn ddiweddar ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Cafodd y bartneriaeth ganmoliaeth uchel am ba mor gyflym y mae'r gwaith hwn wedi'i sefydlu ochr yn ochr â chymunedau a phartneriaid. Mae hyn yn dangos faint o adnoddau a phŵer sy'n cael eu buddsoddi yn ôl i gymunedau lleol. Cynhaliwyd Gwobrau Bwyd a Ffermio Sir Benfro yn ddiweddar hefyd, gan ddangos sut mae cymunedau'n cefnogi arloesedd bwyd a gwydnwch bwyd, ac yn mynd i'r afael â thlodi bwyd. Tynnodd y digwyddiad sylw hefyd at amrywiaeth y bwyd sydd ar gael yng nghymunedau Sir Benfro.

Cwestiynodd PK a yw'r ystadegau unigrwydd ac ynysigrwydd yn yr adroddiad yn cynrychioli pa mor dda y mae partneriaid yn diwallu anghenion y boblogaeth. Cadarnhaodd RB fod gan Sir Benfro seilwaith cymunedol cadarn, wedi'i gefnogi gan y ganolfan gymunedol a'r cysylltwyr, yn ogystal â rhwydwaith o tua 1,200 o grwpiau cymunedol. Mae'r strwythurau ffurfiol ac anffurfiol cryf hyn yn cefnogi ystod eang o unigolion ledled y sir i ymdopi ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae nifer uchel o unigolion o hyd sydd wedi cael fawr ddim cysylltiad â gwasanaethau cymorth cymunedol. Mae hyn yn aml oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig ag unigrwydd ac ynysigrwydd. Mae'r fenter Mannau Cynnes wedi'i sefydlu i annog pobl i ddod at ei gilydd mewn ffyrdd nad sy'n arferol ganddynt. Nododd RB, er mwyn lleihau stigma, fod rhai cymunedau wedi penderfynu peidio â defnyddio terminoleg ac iaith o amgylch 'mannau cynnes', 'ynysigrwydd cymdeithasol' neu 'dlodi'. Yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar asedau sy'n annog pobl i ystyried yr hyn y gallant ei roi yn ôl i'w cymuned leol (e.e. gwirfoddoli fel ffordd o oresgyn heriau personol). Cydnabu PK fod amrywiaeth drawiadol o asedau a strwythurau cymunedol eisoes ar waith ledled Sir Benfro. Ychwanegodd fod y dull sy'n seiliedig ar asedau i bob golwg yn gwasanaethu'r sir orau, ac y bydd ymgysylltu parhaus â Cormac Russell hefyd yn cefnogi'r gwaith hwn.

Rhannodd JB fod cydweithwyr yn yr Hwb Cymunedol yn gyson yn nodi'r problemau o unigrwydd ac ynysigrwydd yn eu sgyrsiau â phobl leol. Mae hyn yn aml o ganlyniad i drafnidiaeth gyhoeddus wael, tlodi, iechyd meddwl, tai, a phroblemau cysylltiedig eraill. Yr ateb yw cynnal seilwaith cymunedol da a phartneriaethau cryf, gyda chyllid ar waith i gefnogi hyn. Nododd JB fod cyllid a gwirfoddoli yn dod yn fwyfwy yn broblem i'w cynnal, ac mae sefydliadau lleol yn dechrau cysylltu â gwasanaethau cymorth am gyngor wrth iddynt wynebu straen ariannol. Awgrymodd PK fod angen mwy o gydlynu ar gyfer ymdrechion o amgylch gwirfoddoli, mewn ffordd sy'n gefnogol o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud heb fod yn rhy rheolaethol. Tynnodd MT sylw at y ffaith bod angen sgwrs ehangach gyda'r cyhoedd hefyd i'w annog i gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. Roedd y digwyddiad cydganu yn ddiweddar yn Arberth, a gyllidwyd gan gyllid Mannau Cynnes, yn enghraifft wych o ddod â phobl ynghyd i gymryd rhan mewn profiad ar y cyd.

Mae ystadegau ynghylch ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd yn dangos ei fod yn effeithio'n bennaf ar bobl iau, yn ogystal â dynion o oedran gweithio ac ymddeol. Mynegodd

RB fod y materion hyn yn gyfrifoldeb i bawb, nid y sector gwirfoddol a chymunedol yn unig. Mae cyfle i sefydliadau mawr a chyflogwyr ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gefnogi llesiant emosiynol eu cydweithwyr a'u gweithlu yn well.

*Natur / Newid Hinsawdd / Datgarboneiddio*

Rhoddodd TJ yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau â thema amgylcheddol:

- Mae llawer o waith yn digwydd ar draws y tri maes prosiect, ond mae angen gwella'r dull cydlynol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae cyllid wedi'i sicrhau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Diolchodd TJ i HM am ei ran yn y gwaith hwn.
- Cytunwyd ar gamau addasu i'r hinsawdd yn 2022, a chyflwynwyd rhestr o gysylltiadau i ddechrau cyflawni'r gwaith hwn. Mae TJ wedi ysgrifennu at bob cyswllt yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am eu camau. Hyd yn hyn, ychydig iawn o ymateb sydd wedi bod ac mae TJ wedi cael llawer o atebion awtomatig yn nodi bod y cysylltiadau wedi gadael eu sefydliad. Gofynnodd TJ i bob partner ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fynd ar drywydd swyddogion perthnasol o fewn eu sefydliadau i ysgogi ymateb. Hyd yn oed os nad oes unrhyw ddiweddariadau wedi digwydd, byddai'n ddefnyddiol gwybod hyn er mwyn cael gwell syniad o'r cynnydd yn erbyn y ffrwd waith. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda phartneriaid perthnasol ar gyfer 26 Ionawr 2026 i drafod y gwaith hwn yn fanylach.
- Mae cyfyngiadau adnoddau parhaus wedi arwain at ychydig iawn o weithgarwch o amgylch ffrwd waith Datgarboneiddio. Cynhelir cyfarfod gyda phartneriaid perthnasol i geisio symud y gwaith hwn ymlaen.

Pwysleisiodd MT bwysigrwydd ailgychwyn gwaith hinsawdd a datgarboneiddio. Mae'r problemau hyn yn cael effaith enfawr ar gymunedau lleol, yn enwedig oherwydd llifogydd a achoswyd gan dywydd garw yn ddiweddar. Tynnodd HW sylw at y ffaith y bydd tywydd eithafol yn parhau i fod yn broblem yn y dyfodol, a bod angen i gymunedau arfordirol yn benodol ddod yn fwy gwydn er mwyn lleihau'r effaith. Mae rhai pobl leol wedi gwrthsefyll ymdrechion i gefnogi gan nad ydyn nhw eisiau gweld unrhyw newidiadau, ond ni fydd dewis mewn rhai ardaloedd, lle mae amodau sy'n gwaethygu yn debygol o lethu cymunedau.

*Tlodi*

Rhoddodd JW yr wybodaeth ddiweddaraf am ffrwd waith Tlodi:

- Mae'r platfform LIFT, offeryn i dracio teuluoedd ar incwm isel, yn ei gamau cynnar o hyd. Mae hyn yn defnyddio data o'r Adran Gwaith a Phensiynau, drwy Policy in Practice, i dargedu pobl sydd â hawl i fudd-daliadau nad ydynt yn eu hawlio ar hyn o bryd. Roedd yr ymgyrch gyntaf yn ymwneud â chredyd pensiwn, a bydd ymgyrchoedd yn y dyfodol yn edrych ar dalebau Cychwyn Iach a chymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae'n anodd yn y cyfnod cynnar hwn i benderfynu faint o effaith mae'r platfform yn ei chael, a faint o newidiadau polisi fydd yn effeithio ar y gwaith hwn yn y dyfodol (e.e. cael gwared ar y cap dau blentyn ar y budd-dal plant).
- Mae prosiect People PWR yn parhau i gael ei redeg gan Cyngor ar Bopeth Sir Benfro. Mae hwn yn brosiect sefydledig a llwyddiannus i'r sir. Er y bydd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i ben yn fuan, bydd y prosiect yn gallu parhau gan ei fod bellach wedi'i brif ffrydio o fewn cyllid presennol. Darperir y cyllid newydd drwy grant hefyd, ond mae hwn yn gyllid sefydledig a rhagweladwy a fydd yn weddol ddiogel ar gyfer y dyfodol agos. Mae'r prosiect yn dod â miloedd o bunnoedd i bobl yn Sir Benfro ond mae hefyd yn cysylltu â swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn ysgolion i ddarparu cymorth ychwanegol.
- Cynhelir y drydedd uwchgynhadledd tlodi ar 13 Mawrth 2026. Y bwriad yw i fabwysiadu fformat 'amser i ofyn cwestiynau' ar gyfer rhan o'r digwyddiad, er mwyn

rhoi cyfle i bob parti drafod ac ateb cwestiynau sy'n ymwneud â thlodi. Cynhelir y digwyddiad cyn y cyfnod cyn-etholiadol, sy'n dechrau ar 23 Mawrth 2026.
- Bydd y Strategaeth Trechu Tlodi yn cael ei hadnewyddu a'i diweddaru yn 2026.

Esboniodd LJ fod Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gorllewin Cymru wrthi'n datblygu blaenoriaethau cenedlaethol ar hyn o bryd. Un o'r blaenoriaethau, a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, yw credyd pensiwn a chynyddu incwm. Bydd LJ yn mynychu gweithdy sydd ar ddod sy'n gysylltiedig â hyn a bydd yn adrodd yn ôl i JW gydag unrhyw wybodaeth berthnasol neu gyfleoedd o ran cyllid.

Gofynnodd JB beth yw'r broses ar gyfer mesur effaith y platfform LIFT. Eglurodd JW y bydd y prosiect yn debygol o redeg am o leiaf flwyddyn cyn y gellir cynhyrchu adroddiad. Mae hyn oherwydd oedi yn y data gan ei bod yn cymryd peth amser i gael gwybodaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch a yw'r carfanau targed wedi'u cyrraedd. Ychwanegodd JW, er bod angen eglurhad pellach ynghylch sut mae'r system yn gweithio, ei bod yn ymddangos na all y platfform LIFT ei hun rannu a yw carfanau targed wedi hawlio unrhyw fudd-daliadau ychwanegol ai peidio. Gallai hyn fod yn her wrth benderfynu effaith system LIFT ar aelwydydd Sir Benfro.

*<u>Blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf (pob prosiect)</u>*

Rhoddodd RB yr wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Cryfhau Cymunedau:
- Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad. Y pum blaenoriaeth allweddol gyfredol ar hyn o bryd yw:
    - Gwirfoddoli
    - Mentrau cymdeithasol
    - Trosglwyddo asedau cymunedol
    - Cynlluniau a phroffiliau cymunedol
    - Yr hwb cymunedol a chysylltwyr
- Cytunwyd hefyd gan is-grwpiau y byddai cydlyniant cymunedol a gwytnwch bwyd yn cael eu cynnwys fel themâu ychwanegol.
- Nodwyd ymgysylltu a chydgynhyrchu fel themâu allweddol a ffyrdd o weithio, yn hytrach na blaenoriaethau unigol.
- Bydd yr is-grwpiau'n edrych yn ôl ac yn myfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn, yn ogystal â datblygu gweledigaeth ar gyfer cyflawni gwaith cymunedol dros weddill y cynllun llesiant.

Trafododd y grŵp y potensial ar gyfer mwy o gydweithio gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch gwaith gwirfoddol:
- MT:
    - Mae angen i sefydliadau annog staff i wirfoddoli, gan ddatgloi capasiti a gwybodaeth ychwanegol y gellir eu defnyddio er budd y gymuned ehangach.
    - Gellid hyrwyddo gwirfoddoli yn fwy o fewn y sector preifat hefyd.
- JB:
    - 2026 yw Blwyddyn Ryngwladol Gwirfoddolwyr y Cenhedloedd Unedig.
    - Gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gydlynu 'diwrnod gwirfoddoli' ar y cyd i hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ymhlith partneriaid.
    - Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro wedi adnewyddu ei pholisi gwirfoddoli â chymorth cyflogwr. Mae hwn yn amlinellu meini prawf penodol y mae'n rhaid i staff sy'n gwirfoddoli eu bodloni (e.e. sicrhau bod ganddynt yswiriant).
    - Mae gwirfoddoli yn arf pwerus ar gyfer ymgysylltiad a llesiant gweithwyr, a gall hyd yn oed arwain at lai o absenoldeb oherwydd salwch.
- HM:

    - Mae llawer o sefydliadau eisoes yn rhoi amser i staff ymgymryd â gweithgareddau gwirfoddoli, ond mae angen gwell cydlyniant i benderfynu ble mae angen y cymorth fwyaf.
    - Ar gyfer sefydliadau sy'n cwmpasu'r rhanbarth ehangach neu'r wlad, efallai mai dim ond nifer fach o staff sydd wedi'u lleoli yn Sir Benfro. Fodd bynnag, gellid dod â'r rhai sydd wedi'u lleoli'n lleol at ei gilydd i ledaenu negeseuon allweddol.
    - Mae angen cydweithio i hyrwyddo negeseuon ynghylch perygl llifogydd, megis annog pobl leol i gofrestru gyda'r gwasanaeth rhybuddio am lifogydd.
- BB:
    - Cefnogir gwirfoddoli ar draws y bwrdd iechyd trwy wasanaethau presennol. Archwiliwyd cynllun gwirfoddoli a gefnogir gan gyflogwyr ond nid yw wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae'r bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar greu amgylchedd cefnogol a hyrwyddo gwirfoddoli'n weithredol yn ehangach.
- AM:
    - Mae Porthladd Aberdaugleddau yn cynnig 12 awr o wirfoddoli â chymorth cyflogwr i bob gweithiwr. Mae targed hefyd i gyflawni 200 o weithgareddau gwirfoddoli bob blwyddyn.
    - Gall fod yn anodd dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli sy'n diwallu'r math o weithgaredd sydd ei angen mewn cymunedau lleol. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r broses hon yn cael ei symleiddio'n well i gefnogi partneriaid.
    - Er bod gan rai staff frwdfrydedd penodol yr hoffent eu cefnogi trwy eu gweithgaredd gwirfoddoli, byddai eraill yn hoffi cael mwy o gyfarwyddyd ynghylch yr hyn a fyddai'n ddefnyddiol i'r gymuned leol.
- WB:
    - Mae gan y cyngor bolisi gwirfoddoli gweithredol, gan gynnig hyd at dri diwrnod gwaith y flwyddyn i staff wirfoddoli yn y gymuned leol. Er bod llawer o unigolion yn gwirfoddoli'n annibynnol, mae'n well gan rai grwpiau o staff wirfoddoli ar y cyd.
    - Mae rhywfaint o gydlynu canolog yn y cyngor, gyda swyddog ymroddedig sy'n hyrwyddo ac yn annog gwirfoddoli. Mae yna hefyd rywfaint o ganllawiau a hyfforddiant ar gael i sicrhau bod gweithgareddau'n unol â pholisi.
    - Er nad yw'r nifer sy'n gwirfoddoli mor uchel ag y dymunir, ni all y cyngor fforddio i'w holl staff gymryd amser i ffwrdd at y diben hwn. Gallai annog mwy o wirfoddoli ddechrau effeithio ar gyflawni gwasanaethau rheng flaen. Mae angen cydbwysedd gofalus rhwng annog staff i wella'r gymuned drwy wirfoddoli a gallu darparu'r gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y trethdalwr.
    - Mae angen i sefydliadau ystyried a yw'n briodol cyfarwyddo staff ynghylch sut y dylent wirfoddoli. Er mwyn i weithgaredd fod yn un 'gwirfoddol', mae angen rhywfaint o ddewis gan yr unigolyn.
    - Gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dynnu ynghyd rai themâu a meysydd lle mae angen gweithgareddau gwirfoddoli. Gellid defnyddio hyn fel canllaw i staff sy'n ansicr ble i ddechrau arni.
- PK:
    - Gallai sefydliadau gyfeirio pobl allweddol at ei gilydd i hyrwyddo gwell dysgu ynghylch gwirfoddoli ac ystyried ymarferoldeb y polisïau hyn.
    - Efallai y bydd angen mwy o gyfarwyddyd a chydlynu ymdrechion i sicrhau nad yw'r holl staff yn cymryd absenoldeb gwirfoddoli ar yr un pryd.
    - Dylai sefydliadau ystyried a oes angen hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff.
- TJ:
    - Dim ond un diwrnod o absenoldeb gwirfoddoli y mae awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei roi i staff.

    - Gallai fod yn ddefnyddiol casglu rhestr o sefydliadau sydd â chynlluniau gwirfoddoli tebyg.
- RB:
    - Mae is-grŵp gwirfoddoli eisoes ar waith, wedi'i gydlynu gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, sy'n cynnwys aelodau ar draws amrywiaeth o sefydliadau. Bydd y cyfarfod nesaf yn y flwyddyn newydd, a bydd y sgyrsiau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r grŵp.
    - Mae llawer o weithwyr y cyngor yn dewis gwirfoddoli yn eu hamser eu hunain, er eu bod yn ymwybodol y gellir cael mynediad at absenoldeb gwirfoddoli.
    - Mae gwirfoddoli hefyd yn cael ei hyrwyddo gan y cyngor fel cyfle i ddatblygu tîm.

Rhoddodd TJ yr wybodaeth ddiweddaraf am y blaenoriaethau byd natur, newid hinsawdd a datgarboneiddio:

- Mae angen mwy o waith i ddod ag arbenigedd ynghyd i ymdrin â'r ffrydiau gwaith hyn, yn enwedig ar gyfer datgarboneiddio.
- Mae angen golwg gliriach ar sut i ddatblygu'r gwahanol gynlluniau a chamau gweithredu sydd ar waith, a bydd yr Is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd yn canolbwyntio ar hyn wrth symud ymlaen.

Nododd MT fod blaenoriaethau'r prosiect tlodi wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad:

- Adnewyddu'r Strategaeth Trechu Tlodi
- Gwerthusiad o'r platfform LIFT
- Datblygiad pellach o wasanaeth hawliau lles Sir Benfro (People PWR)

**5. Cynnig gweithdy – Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach a Mynediad at Fwyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru)**

Esboniodd MT fod y Dull System Gyfan ar gyfer Pwysau Iach wedi'i gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref. Ers hynny, mae trafodaethau wedi digwydd gyda chydweithwyr iechyd y cyhoedd i edrych ar gyfleoedd i gydweithio fel rhanbarth ar fwyd. Os oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddiddordeb, y cam nesaf yw sefydlu gweithdy i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ledled y Gorllewin i ddechrau ffurfio dull o weithio ar y cyd.

Rhoddodd GJ y crynodeb canlynol o gynnig y gweithdy:

- Mae cyllid wedi dod i law gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae gwaith sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael ei wneud ledled y rhanbarth, gan gynnwys yn ardal Bae Abertawe.
- Trefnir gweithdy rhanbarthol i'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion) ddod ynghyd a diffinio'n fwy manwl y maes ffocws a ddymunir mewn perthynas â bwyd. Yn flaenorol, mae partneriaid wedi mynegi diddordeb mewn 'mynediad at fwyd' ond gellir mireinio hyn ymhellach.
- Mae gweithdy eisoes wedi'i hwyluso gydag Abertawe a Chastell-nedd. Cafwyd cyflwyniadau gan unigolion ym Mhrifysgol Caerdydd a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Bydd y gweithdy ar gyfer rhanbarth Dyfed yn digwydd rywbryd ym mis Chwefror 2026, ar ddyddiad sy'n addas i'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd cynhadledd gwytnwch bwyd hefyd ym mis Mawrth 2026.

Cwestiynodd JB a fyddai'r gweithdy ar agor i is-grwpiau neu i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn unig. Eglurodd GJ ei fod yn bennaf ar gyfer aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond mae croeso i aelodau'r is-grŵp fynychu os oes ganddynt ddiddordeb.

Gofynnodd BB pa feysydd ffocws sydd wedi dod i'r amlwg o gynnal y gwaith hwn mewn rhanbarthau eraill. Cadarnhaodd GJ fod Abertawe a Chastell-nedd wedi penderfynu ar 'gaffael bwyd', bod Gogledd Cymru wedi penderfynu ar 'gynllunio', a bod ardaloedd eraill yng Nghymru yn edrych ar 'hysbysebu'.

Mynegodd IT y dylai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro gytuno i gefnogi'r gwaith hwn i sicrhau nad yw'r sir tu ôl yn y rhanbarth ehangach a'r wlad gyfan. Ychwanegodd fod angen i siaradwyr yn y gweithdy feddu ar wybodaeth am gymunedau gwledig ac arfordirol, gan gydnabod bod rhwystrau i gael mynediad at fwyd yn y rhanbarth hwn nad ydynt mor gyffredin mewn canolfannau trefol (e.e. diffyg trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch). Tynnodd GJ sylw at y ffaith ei bod yn hapus i weithio gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth i sicrhau bod siaradwyr priodol yn bresennol.

Nododd HM fod her i gynaliadwyedd cynhyrchu bwyd yn Sir Benfro, gan fod gormod o dda byw yn y sir. Mae hyn yn cael effaith ar ddatblygu tai a'r amgylchedd, ac felly mae angen model mwy cytbwys o weithredu busnes. Cytunodd WB, gan nodi bod gwerth cyfanwerthu llaeth yn gostwng oherwydd y cyfanswm uchel a sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd y ffordd anghynaliadwy y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu yn y sir hefyd yn cael effaith ar yr agenda tlodi. Dylid rhoi cefnogaeth i fentrau sy'n darparu cyfleoedd swyddi ym maes cynhyrchu bwyd, ond mae angen cydbwysedd i sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar y diwydiant ehangach a chymunedau lleol. Mynegodd WB y gall twristiaeth hefyd gael effaith negyddol ar dai, a dylid taro cydbwysedd ym mhob marchnad a diwydiant. Nododd JB y gellid trafod hyn ymhellach gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a fydd yn mynychu cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Chwefror 2026. Ychwanegodd y bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn gofyn am gynllunio cenedlaethol a newid polisi.

Cytunwyd bod gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ddiddordeb mewn mynychu gweithdy rhanbarthol i ddatblygu dull cydweithredol o ymdrin â bwyd. Nododd GJ y byddai'r dyddiad yn cael ei gadarnhau a'i rannu gyda'r aelodau cyn gynted â phosibl.

## 6. Cynllun Gwasanaethau Clinigol Hywel Dda – adolygiad o adborth

Oherwydd diffyg amser yn y cyfarfod, ni ellid rhoi'r cyflwyniad llawn, ac ni ellid cynnal trafodaeth fanwl ar yr adborth.

Rhoddodd PK grynodeb byr:

- Mae cyfnod o ystyriaeth gydwybodol wedi'i gwblhau, i ganiatáu adolygu'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol.
- Fel rhan o'r ymgynghoriad, cafwyd tua 4,000 o ymatebion, a chynigiwyd 200 o opsiynau mewn perthynas â naw gwasanaeth gofal iechyd clinigol.
- Y nod yw gwneud gwasanaethau'n fwy cynaliadwy ac o ansawdd gwell i'r cyhoedd. Roedd rhai o'r pryderon a godwyd yn ymwneud â mynediad at wasanaethau a chludiant.
- Bydd adborth gan bartneriaid yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd iechyd mewn cyfarfod ar 19 Chwefror 2026.

Nododd YP fod y ddogfen ymgynghori, cyflwyniad y penawdau allweddol, a'r arolwg wedi'u dosbarthu fel rhan o becyn agenda'r cyfarfod. Mae'r arolwg yn cau am 11.59pm ar 11 Rhagfyr 2025. Postiwyd y ddolen i'r arolwg a'r dogfennau yn y sgwrs hefyd. Gofynnodd YP i bartneriaid lenwi'r arolwg os yn bosibl.

Rhannodd TJ mai ef oedd cynrychiolydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y grŵp rhanddeiliaid ar gyfer y gwaith hwn. Anogodd yr holl bartneriaid i edrych ar y cynigion a'r wybodaeth sydd ar gael yn y dogfennau.

Nododd MT, pan fydd gwasanaethau'n dod yn seiliedig ar leoedd, y gall senario godi lle mae'n dod yn un gymuned yn erbyn un arall. Mae atebion i hyn, fel defnyddio telefeddygaeth a lleoliadau eraill o fewn cymunedau y gellir eu defnyddio i gyrraedd cleifion mewn gwahanol ffyrdd. Tynnodd PK sylw at y ffaith bod angen gwella'r cynnig cymunedol i sicrhau bod gofal mor agos i gartref â phosibl. Fodd bynnag, ychwanegodd na ellir darparu gofal arbenigol mewn ffordd unigryw heb effeithio ar ganlyniadau. Bydd llawer o achosion lle na ellir darparu gwasanaethau dros y ffôn. Er y bydd 90% o ofal yn aros yn agos i gartref, bydd rhai gwasanaethau arbenigol lle y bydd angen teithio i gael mynediad atynt. Cydnabu PK y gall hyn fod yn anodd mewn cymunedau gwledig lle mae trafnidiaeth yn llai hygyrch.

Awgrymodd MT y dylid rhoi'r eitem hon ar agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Chwefror, hyd yn oed os na ellir ymgorffori barn y grŵp yn swyddogol ym mhroses ystyriaeth gydwybodol y bwrdd iechyd.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Cynnwys 'Cynllun Gwasanaethau Clinigol Hywel Dda – adolygiad o adborth' ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Chwefror 2026.

**7. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15pm.

**Cofnod o'r camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | Gwneud diwygiadau i gofnodion cyfarfod mis Hydref y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Cyn gynted â phosib | LR | WEDI'I GWBLHAU |
| 2 | 11 | Cynnwys 'Cynllun Gwasanaethau Clinigol Hywel Dda – adolygiad o adborth' ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Chwefror 2026. | Erbyn y cyfarfod nesaf | LR | WEDI'I GWBLHAU |